**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Hydref 2018

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Hydref ynghylch Rheoliadau Meysydd Trefi a Phentrefi (Datganiadau Perchennog Tir) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau gwreiddiol"), lle rydych yn gofyn imi egluro fy rhesymau dros ddiwygio'r Rheoliadau hyn.

Byddaf yn gosod set newydd o Reoliadau ("y Rheoliadau newydd") ar 19 Hydref. Byddant yn dod i rym ar 22 Hydref. Rwy'n deall bod yr amserlen hon yn golygu torri'r rheol 21 niwrnod, ond rwy'n cytuno â'r Pwyllgor bod rhesymau da dros wneud yn yr achos hwn.

Bydd y Rheoliadau newydd yn dirymu'r Rheoliadau gwreiddiol ac yn atgynhyrchu'u cynnwys heblaw am newidiadau i leddfu gofidiau a fynegwyd yn adran 'Craffu Technegol' adroddiad drafft y Pwyllgor ar 28 Medi. Disgrifir y gwahaniaethau rhwng y Rheoliadau gwreiddiol a'r Rheoliadau newydd isod.

Mae'r Rheoliadau gwreiddiol yn gofyn bod datganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") yn cael ei osod ar ffurf sy'n cyfateb yn union i'r hyn a ddisgrifir yn Atodlen 1 y Rheoliadau gwreiddiol, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod i allu arfer ei swyddogaethau ar gael iddo.

Er y bydd y Rheoliadau newydd yn cadw'r gofyn hwn, nid yw'n cadw'r gofyn ychwanegol yn rheoliad 7(2)(b) y Rheoliadau gwreiddiol, sy'n darparu bod yn rhaid i'r awdurdod gadw cofrestr o dan adran 15B o Ddeddf 2006 a bod yn rhaid cynnwys copi o'r datganiad a adneuwyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn hytrach, bydd y Rheoliadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol adneuo *Rhan B* o'r datganiad yn unig yn y gofrestr, yn y ffurf a gaiff ei disgrifio.

Canlyniad hyn yw na fydd angen rhoi rhif ffôn na chyfeiriad e-bost perchennog y tir sy'n gosod y datganiad yn y gofrestr; nac enw, cyfeiriad post, rhif ffôn nac e-bost unrhyw berson sy'n gosod datganiad ar ran perchennog y tir.

Fodd bynnag, bydd gofyn sy'n cyfateb i reoliad 7(2)(c) y Rheoliadau gwreiddiol, sy'n gofyn am osod enw a chyfeiriad post perchennog y tir yn y gofrestr, yn ymddangos yn y Rheoliadau newydd.

Gweler isod y cyfiawnhad dros gynnwys darpariaeth o'r fath ("y ddarpariaeth berthnasol") yn y Rheoliadau newydd, a ddisgrifir gan gyfeirio at y pedwar cwestiwn sy'n codi o achos *R (wrth gymhwyso Tigere) v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau*, ymhlith eraill.

Trwy osod datganiad o dan adran 15A(1) o Ddeddf 2006, mae perchennog y tir yn dod i ben ag unrhyw gyfnod pan gâi pobl drwy eu hawl gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden cyfreithiol ar y tir y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

Wrth i berchennog y tir arfer ei ddisgresiwn o dan adran 15A(1), mae hynny ynddo'i hun felly yn cymryd oddi ar y gymuned leol ac aelodau'r cyhoedd yr hawl oedd ganddynt cynt. O'r herwydd, daw budd i'r cyhoedd y cymerwyd eu hawliau oddi arnyn nhw wybod pwy sydd wedi gosod y datganiad er mwyn gallu cysylltu'n anffurfiol ag ef a'i holi os dyna'u dymuniad.

Yn unol â hynny, ceir yn y ddarpariaeth berthnasol  amcan dilys digonol i gyfiawnhau cyfyngu ar hawliau perchennog y tir Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae'r ddarpariaeth berthnasol yn hwyluso'n naturiol amcan y budd cyhoeddus ac felly'r amcan dilys.  Mae hefyd gysylltiad rhesymegol rhyngddi a'r amcan.

Y ddarpariaeth berthnasol yw'r ffordd leiaf ymwthiol o hwyluso amcan y budd cyhoeddus.

Am y rhesymau a nodir uchod, mae'r ddarpariaeth berthnasol yn taro cydbwysedd teg rhwng hawliau perchennog y tir a buddiannau'r gymuned.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs